Y GRAWYS 1

GENESIS 9:8-17; SALM 25:1-10;
1 PEDR 3:18-22; MARC 1:9-15

● **Gweddi agoriadol**
Wrth i ni gyfarfod i addoli,
bendithia undod y bywydau hyn
a'r gymdeithas sydd yma.
Wrth i ni adael y cwrdd cysegredig hwn
bydded i'r fendith a dderbyniwn
fod y fendith a rown,
drwy Iesu Grist yn unig,
yw'n gweddi.

● **Moliant**
Wedi'r storm
enfys,
i'n hatgoffa'n lliwgar
o'r cyfamod
rhwng Creawdwr
a chreadigaeth,
breichiau cariadus Duw
yn cwmpasu'r byd.

Wedi'r storm
enfys,
i'n hatgoffa'n lliwgar
am gariad grasol
rhwng Tad a'i blant,
breichiau cariadus Duw
yn cwmpasu ein haddoli.

● **Cyffes**

Ynot ti yn unig, Arglwydd,
y rhown ein ffydd.
Pan grwydrem
ar dir garw a charegog,
estynaist amdanom, a'n codi
a dod â ni adre yn ddiogel,
ein bugail da
yn gofalu yn dyner am ei ddefaid.

Mae peryg i ni grwydro o hyd
oddi ar y llwybr y'n gosodaist arno,
ein llygaid yn cael eu denu yn hawdd,
gwrando ar gân wahanol,
yn dal i gael ein temtio
gan ffolineb ieuenctid.
Nawr gofynnwn yn wylaidd
am faddeuant
a'th gariad o'n cwmpas
i'n cadw rhag niwed.
Achos ynot ti yn unig, Arglwydd,
y rhown ein ffydd.

● Diolch

Arglwydd, dwyt ti ddim yn cefnu arnom,
hyd yn oed pan grwydrwn;
rwyt yn ein harwain yn dy wirionedd,
yn goleuo llwybr
y gallwn ei ddilyn yn ddiogel.

Dwyt ti ddim yn cefnu arnom,
er i ni dy siomi;
rwyt yn ein bendithio
wrth i gariad, mor rhyfeddol,
arllwys i'n calonnau a thrwyddynt
mewn llif cyson o ras.

Dwyt ti ddim yn cefnu arnom;
ynot ti yn unig yr ymddiriedwn,
ac, wrth ymgasglu yma heddiw,
dygwn yr offrwm hwn
o foliant a diolch.